Suitable for Ages 10+

Time Required: 30 minutes +

# Investigating Archaeology Online

Learn how to use free online tools to uncover the fascinating history and archaeology of Wales!

## How to use this resource



This resource was developed by Nina Steele, Wales Online YAC volunteer in November 2025. On the following pages are links to free online tools and resources that can help you find out about local Welsh history and archaeology. These include listings of sites and monuments, maps, archives, images and much more. Some of these tools are specific to Wales whereas others can be used to investigate sites across the UK.

At Wales Online YAC, we began our 'Investigating Archaeology Online' session by asking members to brainstorm different sources of information for learning about a place in the past. We then talked through the following online resources showing some examples. Members were then challenged to pick a place in Wales, either where they live or another place that is important to them, and use some of these online resources to learn about its history and archaeology.



You could use these resources with young people as part of a group project to investigate the history and archaeology of your local area. Divide members into groups and have each group investigate a different type of evidence. Members then present what they have learnt to the group to build a portfolio of information about your local area.

Alternatively, these resources might be of interest to older YAC members who are keen to do some research in their own time and then share what they have learnt with the rest of the group.

We hope you find these online tools useful for uncovering Wales's fascinating history and archaeology! If you find that any of these links are no longer working, please email yac@yac-uk.org.

## Sites, Monuments and Landscapes



- Cadw – **Côf Cymru** – an interactive map of protected places across Wales.
- Historic Environment Record (HER) - **Archwilio** - a Wales-wide database of archaeological and historical information.
- RCAHMW – National Monuments Record (NMR) - **Coflein** - an online catalogue of archaeology, buildings, industrial and maritime heritage in Wales.
- **Historic Wales** - a map enabled portal for historic environment information in Wales. You can search hundreds of thousands of records of Welsh archaeology and buildings.
- Welsh Government – **Data Map Wales** LiDAR viewer - view and download LiDAR data and maps from across Wales.

## Objects



- **Portable Antiquities Scheme** (PAS) - a project that encourages the recording of archaeological objects found by members of the public. It is run by the British Museum and by Amgueddfa Cymru. Explore the database online or find out more with this **YAC resource**.



- Amgueddfa Cymru – **Collections Online** - search collections online and filter by place.
- **Museum Data Service** - an online service that shares object records from museums across the UK.

## Images, Videos and Art

- RCAHMW – National Monuments Record (NMR) - **Coflein** - tick 'online images only' to view records with images on their online catalogue.
- **People's Collection** - an online searchable archive of photographs, images and maps for exploring Welsh history and culture
- National Library of Wales - **Digital Exhibitions** - browse online exhibitions of photographs, images and maps.



- Screen and Sound Archive – **Clip Cymru** - a searchable digital collection of film, video and audio from the Wales Broadcast Archive and The National Library of Wales Screen and Sound Archive.
- **British Film Institute** - searchable online archive of film.
- **Tate Gallery** - search online archive of artwork

## Archives and Publications



- **The National Library of Wales** newspaper archive
- **Archaeology Data Service** - explore and search records of archaeological sites, finds and historic buildings across the UK

## Maps

- National Library - **Welsh Tithe Maps** - in 1836 the Tithe Commutation Act meant that detailed land maps were produced for tax purposes.
- RCAHMW - **Historical Boundaries** - use 2D and 3D web maps to investigate the historical administrative boundaries of Wales.

- RCAHMW - **Historic Wales** - click on 'map' and add the 'Historic 25" Ordnance Survey Mapping' to overlay historic maps. *Example below:*




- National Library of Scotland – **OS Maps** - browse Ordnance Survey maps from across the UK

## Place Names

- RCAHMW - **List of Historic Place Names of Wales** - resource includes hundreds of thousands of place names collected from historical maps and other sources. Search for a specific placename or browse old maps.
- **Welsh Language Commissioner** - map of Welsh placenames
- **Welsh Place Names Society** - an interactive map of Welsh placenames

## People

- **Dictionary of Welsh Biography** - over 5,000 biographies of individuals who have made a significant contribution to Wales.
- **People's Collection Wales** - search for specific people on this online archive.

### *Explore Further*

Want to dig deeper into your local archaeology? '**My Place in Time'** is a project developed by SharedPast to help YAC members investigate a place that has meaning for them. Check out the resources on the YAC website!

Addas ar gyfer 10 oed +

Amser sydd ei angen: 30 munud +

# Archwilio Archaeoleg Ar-lein

Dysgwch sut i ddefnyddio offer ar-lein am ddim i ddatgelu hanes ac archaeoleg ryfeddol Cymru!

## Sut i ddefnyddio’r adnodd hwn



Cafodd yr adnodd hwn ei ddatblygu gan Nina Steele, gwirfoddolwr Clwb Archaeolegwyr Ifanc (YAC) Ar-lein Cymru ym mis Tachwedd 2025. Ar y tudalennau canlynol ceir dolenni at offer ac adnoddau ar-lein am ddim a all eich helpu i gael gwybodaeth am hanes ac archaeleg leol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhestrau o safleoedd a henebion, mapiau, archifau, delweddau a llawer mwy. Mae rhai o'r adnoddau hyn yn benodol i Gymru a gellir defnyddio eraill i ymchwilio i safleoedd ledled y DU.

Yn YAC Ar-lein Cymru, dechreuom ein sesiwn 'Archwilio Archaeoleg Ar-lein' drwy ofyn i'r aelodau daflu syniadau am wahanol ffynonellau o wybodaeth ar gyfer dysgu am le yn y gorffennol. Aethom ati wedyn i drafod yr adnoddau ar-lein canlynol gan ddangos enghreifftiau. Yna, gofynnwyd i'r aelodau ddewis lle yng Nghymru, naill ai'r lle maen nhw'n byw neu le arall sy'n bwysig iddyn nhw, a defnyddio rhai o'r adnoddau ar-lein i ddysgu am ei hanes a'i archaeoleg.



Gallech ddefnyddio'r adnoddau hyn gyda phobl ifanc fel rhan o brosiect grŵp er mwyn ymchwilio i hanes ac archaeoleg eich ardal leol. Rhannwch yr aelodau'n grwpiau a gofynnwch i bob grŵp archwilio gwahanol fath o dystiolaeth. Yna, gofynnwch i'r aelodau gyflwyno'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu i'r grŵp er mwyn creu portffolio o wybodaeth am eich ardal leol.

Fel arall, gallai'r adnoddau hyn fod o ddiddordeb i aelodau YAC hŷn sy'n awyddus i wneud rhywfaint o ymchwil yn eu hamser eu hunain ac yna rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu gyda gweddill y grŵp.

Gobeithiwn y bydd yr adnoddau ar-lein hyn o fudd i chi ar gyfer datgelu hanes ac archaeoleg ryfeddol Cymru! Os gwelwch nad yw rhai o'r dolenni hyn yn gweithio mwyach, e-bostiwch yac@yac-uk.org.

## Safleoedd, Henebion a Thirweddau



- Cadw – **Cof Cymru** – map rhyngweithiol o leoedd gwarchodedig ledled Cymru.
- Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER) - **Archwilio** - cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth archaeolegol a hanesyddol.
- CBHC – Cofnod Henebion Cenedlaethol (NMR) - **Coflein** - catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, a threftadaeth ddiwydiannol a morol yng Nghymru.
- **Cymru Hanesyddol** - porth wedi'i gyrchu drwy fapiau ar gyfer gwybodaeth amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Gallwch chwilio cannoedd ar filoedd o gofnodion ar archaeoleg ac adeiladau Cymru.
- Llywodraeth Cymru – **Map Data Cymru** syllwr LiDAR - i weld a lawrlwytho data LiDAR a mapiau o bob cwr o Gymru.

## Gwrthrychau



- ·**Cynllun Hynafiaethau Cludadwy** (PAS) - prosiect sy'n annog cofnodi gwrthrychau archaeolegol a ganfyddir gan y cyhoedd. Caiff ei chynnal gan Amgueddfa Prydain a chan Amgueddfa Cymru. Archwiliwch y gronfa ddata ar-lein neu dysgwch ragor gyda'r **adnodd YAC** hwn.



- Amgueddfa Cymru – **Casgliadau Ar-lein** - chwiliwch gasgliadau ar-lein a hidlwch yn ôl lle.
- **Gwasanaeth Data Amgueddfeydd**- gwasanaeth ar-lein sy'n rhannu cofnodion gwrthrychau o amgueddfeydd ledled y DU.

## Delweddau, Fideos a Chelf

- CBHC – Cofnod Henebion Cenedlaethol (NMR) - **Coflein** - ticiwch 'delweddau ar-lein yn unig' i weld cofnodion gyda delweddau ar eu catalog ar-lein.
- **Casgliad y Werin** - archif chwiliadwy ar-lein o ffotograffau, delweddau a mapiau ar gyfer archwilio hanes a diwylliant Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru - **Arddangosfeydd Digidol** - porwch arddangosfeydd ar-lein o ffotograffau, delweddau a mapiau.



- Archif Sgrin a Sain – **Clip Cymru** - casgliad digidol chwiliadwy o ffilm, fideo a sain o Archif Ddarlledu Cymru ac Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- **Sefydliad Ffilmiau Prydain** - archif ar-lein chwiliadwy o ffilm.
- **Tate Gallery** - chwiliwch archif ar-lein o waith celf

## Archifau a Chyhoeddiadau



- **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** archif papurau newydd
- **Gwasanaeth Data Archaeolegol** - archwiliwch a chwiliwch gofnodion safleoedd archaeolegol, canfyddiadau ac adeiladau hanesyddol ar draws y DU

## Mapiau

- Llyfrgell Genedlaethol - **Mapiau Degwm Cymru** - ym 1836 roedd Deddf Cyfnewid y Degwm yn golygu bod mapiau tir manwl wedi'u cynhyrchu at ddibenion treth.
- CBHC - **Ffiniau Hanesyddol** - defnyddiwch fapiau rhyngweithiol 2D a 3D i ymchwilio i ffiniau gweinyddol hanesyddol Cymru.

- CBHC - Cymru **Hanesyddol** - cliciwch ar 'map' ac ychwanegwch y 'Map Arolwg Ordnans 25" Hanesyddol' er mwyn troslunio mapiau hanesyddol. *Enghraifft isod:*




- ·Llyfrgell Genedlaethol yr Alban – **Mapiau OS** - porwch fapiau Arolwg Ordnans o bob cwr o'r DU

## Enwau Lleoedd

- CBHC - **Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** - mae'r adnodd yn cynnwys cannoedd ar filoedd o enwau lleoedd a gasglwyd o fapiau hanesyddol a ffynonellau eraill. Chwiliwch am enw lle penodol neu porwch drwy hen fapiau.
- **Comisiynydd y Gymraeg** - map o enwau lleoedd Cymru
- **Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru** - map rhyngweithiol o enwau lleoedd Cymru

## Pobl



- **Y Bywgraffiadur Cymreig** - dros 5,000 o fywgraffiadau unigolion a wnaeth gyfraniad pwysig i Gymru.
- **Casgliad y Werin Cymru** - chwiliwch am bobl benodol ar yr archif ar-lein hon.

### *Archwilio Ymhellach*

Awyddus i ymchwilio'n ddyfnach i'ch archaeoleg leol? Mae '**My Place in Time**' yn brosiect a ddatblygwyd gan SharedPast i helpu aelodau YAC i archwilio lle sy'n golygu rhywbeth iddyn nhw. Cymerwch olwg ar yr adnoddau sydd ar wefan YAC!

